CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

21 Mai 2019, Neuadd Talwrn

am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, C Jones, D Morgan, D Pritchard, D ap Rhobert, A Wyn, W Williams, C McGregor, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Roberts, W Vaughan	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A Williams. Croesawyd Delyth Owen a Bethan Jukes o Medrwn Mon i'r cyfarfod i drafod "siapio lle" Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg ers tua 3 blynedd. Y pwrpas yw mapio'r hyn sydd ar gael mewn cymunedau fel grwpiau, clybiau a chymdeithasau er mwyn rhannu a gwella asedau cymunedol. Cytunwyd y bydd y cyngor yn casglu gwybodaeth i sefydlu cofrestr
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16.04.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng A Williams yn cynnig a Cyng A Wyn yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mae Cyngor Ynys Môn yn cadarnhau nad yw'r llwybr wedi'i gofrestru ac nad yw'n gwybod dim am y pibellau sydd wedi'u gosod ar draws y llwybr. Cytunwyd i ofyn a ellir cofrestru'r llwybr
4.2	**Lloches bws, Talwrn** - mewn llaw
4.3	**Cyflwr y lôn wrth ymyl Bryn Gors** - Mae'r Cyngor Sir wedi dechrau gwneud y gwaith
4.4	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.5	**Porth y Dryw** - mewn llaw
4.6	**Lay By Llangwyllog** - mewn llaw
4.7	**Baw ci Talwrn** - disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.8	**Lonydd Tregaian** - mewn llaw
4.9	**Coed o Bodlondeb i lawr** angen ei torri - mewn llaw
4.10	**Neuadd Talwrn (mantolen)** - mewn llaw
4.11	**Sedd Wâg** - Mae'r Clerc yn disgwyl i'r Cyngor Sir paratoi hysbyseb
4.12	**Rheolau Cyllid a Sefydlog** - Cytuniwyd i dderbyn y ddau
4.13	**Contract gwaith y Clerc/Swyddog Cyllid** - Derbyniwyd y contract gan y Cyngor a'r Clerc
4.14	**MANDAD y banc** - Bydd y Clerc yn trefnu i dynnu enw Cyng D Morgan o'r MANDAD
	Llofnod……Cadeirydd 11.06.19

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Pwyllgor Safonnau
5.1	**Adolygiad y Pwyllgor Safonnau -** Trafodwyd Adroddiad y Pwyllgor Safonnau ar Adolygiad y Cofrestrau - mae pob aelod wedi derbyn copi. Mae pob aelod yn datgan diddordeb ar dechrau pob cyfarfod os bydd angen
	Cynllunio
5.2	Ymgynghoriad Cynllunio ELE/2019/2 Cais llawn o dan Adran 37 Deddf Trydan 1989 ar gyfer ail-adeiladu'r llinell 11kv uwchben bresennol rhwng Pentraeth - Rhoscefnhir - dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Dim
	MATERION ARIANNOL
7.1	Cytuniwyd i dalu Gareth Hughes £45.00 (taliad cyntaf torri coed Maes y Coed)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Llwbr Tre Ddewi lawr at y lein - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir yn dweud "Oes dim llwybr cyhoeddus wedi ei gofrestru ar y Map a'r Datganiad Swyddogol yn y fan hyn. Mae'n ymddangos nad oes ymgais wedi bod i'w gofrestru yn y gorffennol" Cytunwyd i ofyn a ellir cofrestru'r llwybr
8.2	Llwybr Cefn Poeth Mawr - mewn llaw
8.3	Cyng Dylan Morgan - Ar ran y cyngor, mynegodd y Cynghorwyr Dic Pritchard ac Ann Williams ddiolch i'r Cynghorydd Dylan Morgan am ei gyfraniadau a'i flynyddoedd o wasanaeth i'r cyngor.
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Japanese knotweed yn y maes chwarae
	Llofnod……Cadeirydd 11.06.19